CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Iau, 16 Medi 2021 drwy Microsoft Teams

1a. Yn bresennol

Yn bresennol:
Dr John William Devine (Cadeirydd)
Dr Jacqueline Gantley
Mrs Bronwen Williams
Dr Harriet Pierpoint

Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Mr Lee Jones
Ms Carol Woodward
Ms Nia Brennan
Mr Martyn Jones
Ms Jayne Woodward
Arolygydd Matthew Hicks
Rhingyll Mathew Newman
Ms Sarah Griffiths (Ysgrifenyddiaeth)

Gwesteion yn Cyflwyno Enghreifftiau o Gyfyng-gyngor Moesegol:
Uwch-arolygydd Vicky Townsend - Cyfyng-gyngor Adnabod Wynebau
Mr Daniel Jenkins - Cyfyng-gyngor Adnabod Wynebau
Mr Rhodri James - Cyfyng-gyngor Adnabod Wynebau
Ms Catherine Llewellyn - Gofynion Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfyng-gyngor Cysylltiadau Cyhoeddus
Uwch-arolygydd Emma Tyler - Gofynion Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfyng-gyngor Cysylltiadau Cyhoeddus

Ymddiheuriadau:
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Rhingyll Claire Evans-Bell
Prif Uwch-arolygydd Danny Richards
Mr Joga Singh
Rhingyll Sian O'Shea
Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr Uwch-arolygydd Vicky Townsend, yr Uwch-arolygydd Emma Tyler, a Catherine Llewellyn i'r cyfarfod i gyflwyno'r cyfyng-gyngor moesegol.

Cyflwynodd John William Devine ei hun fel cadeirydd newydd y Pwyllgor Moesegol gan rannu ei ddulliau ymateb. Pwysleisiodd ei fod wedi etifeddu pwyllgor effeithiol ac aeddfed. Ei ddull ef fyddai hwyluso trafodaeth a helpu i drefnu trafodaethau'r Pwyllgor wrth iddynt fynd rhagddynt. Pwysleisiodd y dylai argymhellion ffurfiol y Pwyllgor adlewyrchu'r trafodaethau sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Dylai'r Pwyllgor Moesegol gynnig arweiniad i'r Heddlu, sy'n mynd y tu hwnt i gynnig yr ateb cywir am y rhesymau cywir yn unig ond darparu'r ystod o safbwyntiau y gallai rhywun eu harddel am y materion dan sylw. Bydd trafodaethau'n egluro natur y broblem a'r 'gofyn' am dystiolaeth, gan lenwi'r dirwedd o ran pa safbwyntiau y gellid eu harddel ar ba fater a pha safbwynt y dylai'r pwyllgor ei argymell. Anogodd y Cadeirydd y Pwyllgor i awgrymu sut y gallai pethau gael eu haddasu neu eu gwella

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 29/03/2021 – Y Cadeirydd

Sarah Griffiths i wneud cywiriadau i gofnodion 10 Mehefin 2021 yng nghyswllt y Grŵp AUR.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
24.06.2020.4	Trafod y posibilrwydd o ymestyn cyfnodau mewn swydd ac	Mike Lewis a Nia Brennan	**Diweddariad 9.12.2020:** Trafodwyd y cylch gorchwyl mewn cyfarfod arbennig ar 21/10/2020 lle y cytunwyd i ymestyn y cyfnod mewn swydd i bedair blynedd, bod angen

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
	adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.		o leiaf tri aelod annibynnol ym mhob cyfarfod ac i ddileu'r gofyniad i gyfarfod wyneb yn wyneb. Cytunodd Dr Pierpoint â'r awgrym y dylid ymestyn ei chyfnod yn y swydd i bedair blynedd (11.11.2022). Roedd Duncan Lewis wedi anfon ymddiheuriadau ar fyr rybudd a chysylltwyd ag ef ar ôl y cyfarfod. Roedd yn well ganddo beidio ag ymestyn ei gyfnod fel aelod o'r pwyllgor ac felly byddai'n gorffen ar 11.11.2021. **Diweddariad 10.06.2021:** Nia Brennan i wneud mân newidiadau i'r cylch gorchwyl a'i gymeradwyo. Trafododd y Pwyllgor gydnabyddiaeth a nododd y Cadeirydd y dylai aelodau o'r Pwyllgor a oedd yn dod i gyfarfodydd gael cydnabyddiaeth, ond ni fyddai aelodau o'r Pwyllgor yn cael cydnabyddiaeth am ymchwil annibynnol. Fodd bynnag, ni fyddai aelodau'n derbyn ad-daliad am ymchwil annibynnol. Os bydd gwaith ar ffurf gwasanaeth cynghori o fewn cylch gwaith Swyddfa'r Comisiynydd, yna gellid ystyried cydnabyddiaeth yn ôl disgresiwn Swyddfa'r Comisiynydd. Nododd y PGC Travis fod y gwaith ychwanegol a oedd yn cael ei wneud gan aelodau'r pwyllgor yn werthfawr ac yr hoffai weld hyn yn datblygu ymhellach. **Cam Gweithredu: John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried ble a sut yr ariennir gwaith ychwanegol y Pwyllgor a threfniadau llywodraethu a threfniadau eraill ar gyfer gwaith o'r fath.** **Diweddariad 16.09.21:** Cylch gorchwyl yn cael ei gwblhau. Nododd NPB fod y cylch gorchwyl newydd nawr yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol: Bydd gan aelodau hawl i'r taliad(au) canlynol yng nghyswllt eu presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor [***neu unrhyw gyfarfod arbennig arall a fynychir yn rôl yr Aelod ar y Pwyllgor yn ôl gofyn yr heddlu o dro i dro***].
02.09.2020.1	Stopio a Chwilio: Mike McNamee a Duncan Lewis i ystyried pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod sut i ddehongli'r data ar stopio a chwilio.	Mike McNamee a Duncan Lewis Lee Jones a Harriet Pierpoint	Roedd Lee Jones a Duncan Lewis wedi trafod pryderon ynglŷn â chymesuredd Stopio a Chwilio yng nghyd-destun cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut y dylai'r Heddlu benderfynu pa setiau data i'w derbyn. Cydnabuwyd bod Byrddau eraill yn canolbwyntio ar hyn a bod llawer o waith yn cael ei wneud a oedd yn gorgyffwrdd â'r defnydd o rym, anghymesuredd ac ati. Roedd yr Uwch-arolygydd Marc Atwell hefyd yn cydgysylltu â'r Swyddfa Gartref i edrych ar ansawdd data. Nodwyd, p'un a oedd y gronfa ddata sylfaenol yn gywir ai peidio, ei bod yn debygol o ddangos anghymesuredd sut bynnag ac mai mater o ystyried pa mor anghymesur ydoedd ac yna beth y gellid ei wneud mewn perthynas â hynny. Cytunodd Harriet Pierpoint i wneud rhagor o waith ar hyn gyda Lee Jones. **Cam Gweithredu Pellach: Lee Jones a Harriet Pierpoint i wneud rhagor o waith ar fater stopio a chwilio rhwng cyfarfodydd y pwyllgor.** **EITEM AR YR AGENDA Y CYTUNWYD ARNI AR GYFER MIS MAWRTH 2021:** Caiff crynodeb o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf er mwyn ystyried yr agweddau moesegol. **Diweddariad Ionawr 2021:**

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
			Cyfarfod â Lee, Harriet, Duncan, Marc Atwell a Hannah Jenkins i drafod opsiynau a chwmpas. Ar hyn o bryd, nid oes heriau moesegol nes cytuno ar y camau nesaf. **Diweddariad 29.03.2021:** Nododd Lee Jones fod y gwaith o dan y cam gweithredu hwn yn dal i fynd rhagddo. Cynhaliwyd cyfarfod â'r Uwch-arolygydd Marc Atwell a chafwyd trafodaethau ynglŷn â gwaith yn y maes hwn a'r ffaith bod problemau o hyd o ran anghymesuredd. Mae nifer o grwpiau yn edrych ar ymgysylltu, gan gynnwys y Grŵp AUR ar stopio a chwilio a'r defnydd o rym. Mae'r gwaith o fapio'r holl weithgarwch a grwpiau presennol yn mynd rhagddo. Bydd angen gorffen hyn cyn y gellir gwneud penderfyniadau ynglŷn â chomisiynu gwaith pellach. **Nododd y Cadeirydd na ellid gohirio'r mater hwn eto a bod angen iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Moeseg Annibynnol ym mis Mehefin 2021.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth wrth-hiliaeth i Gymru. Bydd angen ystyried ymateb Heddlu De Cymru i'r adroddiad cenedlaethol. **Diweddariad 10.06.2021:** Cyflwynwyd yn eitem 4. **Diweddariad 16.09.2021:** CYFLAWNWYD Y CAM GWEITHREDU. Disodlwyd gan weithred 10.06.2021.2 i adnabod heriau moesegol Stopio ac Archwilio.
9.12.2020.4	I drefnu i unigolion a oedd wedi mynegi diddordeb yn y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol gael gwahoddiad i arsylwi ar y cyfarfod ym mis Mawrth a rhoi hawlildiadau cyfrinachedd ar waith.	Nia Brennan a Vicki Ash	**Diweddariad 22.2.2021:** Ar ran Lee Jones a'r PGC Travis, mae Vicki wedi anfon llythyr at ymgeiswyr aflwyddiannus yn cynnwys dyddiadau'r cyfarfodydd sy'n weddill eleni. **Diweddariad 29.03.2021:** Daeth Mrs Fathia Gadim a Mr Igor Tetiu i gyfarfod y Pwyllgor Moeseg Annibynnol ar 29.03.2021. Mae Mr Shahonoor Alom Shumon wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod ar 10.06.2021. **Diweddariad 10.06.2021:** Daeth Mr Shahonoor Alom Shumon i'r cyfarfod ar 10.06.2021. **Diweddariad 16.09.2021:** **CYFLAWNWYD Y CAM GWEITHREDU.**
9.12.2020.5	Mike Lewis i gydgysylltu â Vicki o ran cyflwyniad posibl gan Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu yn y cyfarfod ym mis Mawrth.	Diwygiwyd i Lee Jones	**Diweddariad 09.03.2021:** Mae Mike Lewis wedi cadarnhau bod y cam gweithredu hwn wedi dilyn awgrym ganddo i geisio cymorth gan y Grŵp Cynghori Annibynnol i fynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth ar y pwyllgor. Teimlwyd y byddai hyn yn fwy addas i Lee Jones ei wneud mewn trafodaethau â'r Comisiynydd. **Diweddariad 29.03.2021:** Nododd Lee Jones fod yr Heddlu wedi creu ei Grŵp Cynghori Annibynnol ei hun. Mae nifer o grwpiau cydlyniant cymunedol wedi cael eu ffurfio i ymgysylltu â chymunedau, a nodwyd y sylw yn y cyfryngau ar faterion cydraddoldeb yn sgil materion proffil uchel ym Mryste ac ymchwiliad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i farwolaeth Mohammed Hassan. Mae angen ystyried pa newidiadau y mae hyn yn eu cyflawni (os o gwbl) yn ein cymunedau. **Lee Jones i ddwyn yr eitemau hyn ynghyd ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Martin Jones, y Swyddog Arweiniol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Ystyried gofyn i'r Grŵp Cynghori Annibynnol am unrhyw enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol ond bod yn ystyriol o swyddogaethau gwahanol y ddau grŵp.**

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
			Nodwyd bod angen eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Pwyllgor Annibynnol pan fyddant yn cael eu gwahodd i fynd i gyfarfodydd eraill yr heddlu. CAM GWEITHREDU NEWYDD. **Diweddariad 10.06.2021:** Rhoddodd Martyn Jones ddiweddariad ar y Grŵp Cynghori Annibynnol yn y cyfarfod. Eitem 4 ar yr agenda. **Diweddariad 16.09.2021:** **CYFLAWNWYD Y CAM GWEITHREDU.**
9.12.2020.6	Datblygu ffyrdd y gall y pwyllgor gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'u gwahodd i ddod i gyfarfodydd yn y dyfodol ac arsylwi arnynt.	Joga Singh	**Diweddariad 29.03.2021:** Nodwyd materion, gan gynnwys y ffordd y caiff swyddi gwag eu hysbysebu. Hefyd, mae angen i'r swydd wag fod ar agor am fwy o amser. Pan fydd swyddi gwag, dylid cysylltu â grwpiau cymunedol amrywiol i sicrhau fod eu haelodau'n ymwybodol o'r cyfleoedd perthnasol. Dylid cysylltu'n rhagweithiol yn enwedig â sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, ac ar eu rhan, yn cynnwys grwpiau BAME a grwpiau ag anableddau. Dylem barhau i wahodd ymgeiswyr aflwyddiannus i fod yn arsylwyr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg Annibynnol yn y dyfodol. Cadarnhaodd PGC Travis fod grwpiau mewnol o fewn yr Heddlu yn cynrychioli'r nodweddion mwyaf gwarchodedig. Ymysg y grwpiau a allai gynorthwyo gyda recriwtio mae: y Grŵp Cynghori Annibynnol, rhwydweithiau mewn prifysgolion, y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, grwpiau nodweddion gwarchodedig, a'r grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd. Gellid hefyd ystyried cymorth gan elusennau megis MIND, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a mannau addoli. Dylid ystyried y defnydd o fideo a sain. Dylid mabwysiadu cynllun gweithredu. Er mai cyfyngedig yw gallu'r Heddlu i gyrraedd pobl sy'n meddu ar y sgiliau cywir, dylai'r Heddlu geisio gwella hyn. Pwysleisiodd Bronwen y rhwystrau a wynebwyd gan bobl iau wrth wneud cais am aelodaeth o'r Pwyllgor yn sgil y canfyddiad y byddai hyn yn niweidio'u rhagolygon am ddyrchafiad o fewn eu cyflogaeth reolaidd a'r heriau o gydbwyso gofal plant a gwaith. **John William Devine i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn unwaith y bydd yn ei rôl fel Cadeirydd. Grŵp gorchwyl a gorffen a gwaith i barhau ochr yn ochr â Joga Singh, Lee Jones ac PGC Mark Travis.** **Diweddariad 10.06.2021:** I'w ystyried unwaith y bydd John William Devine yn ei rôl fel Cadeirydd. **Diweddariad 16.09.2021:** Cam Gweithredu: John William Devine gyda Lee Jones i fwrw ymlaen â'r gwaith o recriwtio aelodau ychwanegol o'r pwyllgor yn cynnwys grwpiau tangynrychioledig. **Gollyngwyd y Cam Gweithredu. Disodlwyd gan gam gweithredu 16.09.2021.1**
29.03.2021.1	Eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r Pwyllgor Annibynnol pan	Mike McNamee	**Diweddariad 29.03.2021:** Harriet Pierpoint i fynd i rag-gyfarfod nesaf y Pwyllgor Moeseg Annibynnol i drafod y mater hwn ymhellach**.**

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
	fyddant yn mynd i gyfarfodydd eraill yr heddlu.		**Diweddariad 10.06.2021:** I'w drafod yn rhag-gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol. **Diweddariad 16.09.2021:** **Gollyngwyd y Cam Gweithredu.** Disodlwyd gan gam gweithredu 10.06.2021.1
29.03.2021.3	PGC Travis i ystyried cynrychiolaeth gan swyddogion yr heddlu yn y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol.	Kevin Richards/ Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis	**Diweddariad 10.06.2021:** Soniwyd am bresenoldeb yn y Grŵp Moeseg Mewnol (13.05.2021). Caiff trafodaethau pellach eu cynnal mewn cyfarfod tîm mewnol a chaiff aelodaeth ei thrafod ymhellach â'r Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol unwaith y bydd hwn wedi'i gynnal. **Diweddariad 16.09.2021:** Gofyn am fynegiadau o ddiddordeb gan swyddogion.
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried ble a sut y caiff gwaith ychwanegol sy'n cael ei ymgymryd gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor ei gydnabod a'i ariannu.	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n ymgymryd â gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. Y ddarpariaeth a gynhwysir o fewn y cylch gwaith dan adolygiad i gwmpasu sefyllfaoedd o'r fath (gweler uchod)
10.06.2021.2	Defnyddio Pwerau'r Heddlu/Stopio a Chwilio: John William Devine i arwain gweithgor i nodi enghreifftiau o gyfyng-gyngor moesegol/llunio cwestiynau penodol a data i'r Pwyllgor eu hystyried. Bydd y gweithgor yn cynnwys yr Uwch-arolygydd Stone, Martyn Jones, John William Devine, Harriet Pierpoint, Joga Singh a Lee Jones.	John William Devine	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae grŵp gweithredol wedi'i ffurfio a thri chyfarfod wedi'u cynnal. Mae disgwyl i'r cyfarfod olaf gael ei gynnal ym mis Hydref/Tachwedd. Trafododd y grŵp fater cyffredinol Stopio a Chwilio, y prif themâu a'r materion moesegol a godir ganddo, data perthnasol ac oblygiadau moesegol y data hwnnw, a datblygiad dogfen friffio. Caiff y ddogfen friffio ei dosbarthu i'r Pwyllgor i'w hystyried mewn cyfarfod pellach. Bydd y grŵp yn canolbwyntio nesaf ar p'un a ddylid defnyddio Stopio a Chwilio o gwbl yn Ne Cymru, pa fecanweithiau atebolrwydd y dylid eu gweithredu o'i ddefnyddio, a pha heriau moesegol sy'n codi o gyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o Stopio a Chwilio.
10.06.2021.3	Adolygiad Nia Brennan o adroddiad blynyddol y Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol.	Nia Brennan	**Diweddariad 16.09.2021:** Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i gadarnhau gan fod SG wedi gwirio'r cynnwys yn erbyn cofnodion y CBMA yn y gorffennol.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

4.1 Technoleg Adnabod Wynebau: Cyflwyniad o'r cyfyng-gyngor gan yr Uwch-arolygydd Vicky Townsend:

Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Vicky Townsend wybodaeth am dechnoleg adnabod wynebau (FRT), yn benodol, yr ap adnabod wynebau awtomataidd (FRApp). Rhoddodd yr Uwch-arolygydd grynodeb o'r trafodaethau blaenorol a ddaeth o flaen y Pwyllgor Moeseg Eglurwyd terminoleg berthnasol: Mae RFR yn dynodi adnabyddiaeth wyneb ôl-weithredol amser araf ac mae LFR yn dynodi adnabyddiaeth wyneb amser byw. Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod adnabod wyneb yn arf gwerthfawr wrth amddiffyn y mwyaf bregus ac adnabod y rhai y mae chwilio amdanynt am droseddau. Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod yr adolygiad barnwrol wedi ymwneud â'r defnydd o LFR yn unig (a sicrhau fod y prosesau'n gadarn a thryloyw. Wrth i'r Heddlu beilota'r Ap Adnabod Wynebau, rhoddir ystyriaeth i sut y gall y Llu gynnig gwybodaeth i unigolion orau ac a oes unrhyw beth y gall y Llu herio'u hunan amdano er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn dull cymesur a chyfreithlon.

Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod Technoleg Adnabod Wynebau'n gweithio drwy ddadansoddi nodweddion wyneb allweddol sydd i'w gweld mewn llun. Caiff cynrychiolaeth fathemategol o nodweddion ei chreu a'i chymharu yn erbyn set hysbys o

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

ddelweddau neu “Restr Wylio”. Mae Heddlu De Cymru yn cofnodi pedwar categori o risg ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn cynnwys LFR, adnabod wynebau ôl-weithredol (RFR), a’r Ap Adnabod Wynebau (FRApp). (Mae adnabod wynebau ôl-weithredol (RFR) yn dal i gael ei ddefnyddio ac nid oedd yn rhan o her gyfreithiol. LRF oedd yn rhan o’r her gyfreithiol. Does gan Heddlu De Cymru ddim mynediad at hwn ac nid yw’n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Peilot yw’r Ap Adnabod Wynebau (FRApp), ac mae’r heddlu yn y broses o hyfforddi a phrofi, felly nid yw ar gael i bob swyddog eto.)

Mae angen yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp) ar yr Heddlu er mwyn helpu i amddiffyn y mwyaf bregus yn ein cymdeithas a helpu i sicrhau cyfiawnder yn gyflym drwy gynorthwyo i adnabod yr unigolion sydd o ddiddordeb i’r heddlu. Defnyddir yr Ap i gasglu manylion personol oddi wrth unigolion sy’n analluog neu’n gwrthod darparu eu manylion personol, unigolion sy’n darparu manylion personol yn fwriadol, unigolion bregus a’r rhai sy’n troseddu (ac yn debygol o aros yn lleol i’w hardal). Defnyddir NICHE fel cofnod sylfaenol, felly os yw’r person wedi’i arestio yn y gorffennol, mae'n debygol o gael ei adnabod. Cyn defnyddio’r Ap Adnabod Wynebau (FRApp), bydd y swyddog, os yw'n ymarferol, yn hysbysu’r person o’r rheswm dros ddefnyddio’r Ap gan roi cyfle rhesymol iddo/iddi roi ei enw/henw cywir. Bydd y Gweithredwr yn defnyddio'r cofrif R.O.G.E.R. i'w helpu wrth ryngweithio â'r unigolyn cyn cael y Ddelwedd Chwilota (Rheswm. Manylion y Swyddog. Sail dros ddefnyddio. Egluro na fydd y ddelwedd yn cael ei chadw. Cadarnhad o bwy sy'n derbyn y wybodaeth – ni chaiff gwybodaeth ei datgelu i drydydd partïon). Mae peilot yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn digwydd dros ddau gyfnod. Mae Cyfnod un yn cynnwys profi lleol ac adborth swyddogion, a Chyfnod dau yn cynnwys arbrawf gweithredol ac adolygiad.

Y cwestiwn i’w ystyried gan y Pwyllgor oedd: Pa ystyriaethau moesegol ddylai peilot Ap Adnabod Wynebau (FRApp) Heddlu De Cymru ymwneud â nhw?

Ymatebion/cwestiynau a godwyd:

- Beth oedd safbwynt y Pwyllgor ynglŷn â ph’un a ddylid defnyddio hwn yn y lle cyntaf?
  - Dywedodd yr Uwch-arolygydd Townsend nad oes unrhyw safbwyntiau blaenorol wedi eu cyflwyno yng nghyswllt yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp), dim ond yng nghyswllt Adnabod Wynebau Ôl-weithredol (FRF) a dderbyniodd lawer o gefnogaeth. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Townsend nad oedd yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yr un peth â Thechnoleg Adnabod Wynebau (FRT) Amser Byw a chydnabu fod pryderon wedi’u mynegi ynglŷn â’r olaf.
- Pa wybodaeth mae’r gronfa ddata’n ei chynnwys am fregusrwydd unigolyn?
  - Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod system NICHE yn cadw cofnodion aur o wybodaeth am unigolyn. Er enghraifft, gallai gynnwys cofnod dalfa, dolen i gofnod lle mae rhywun wedi derbyn ymyrraeth iechyd meddwl, gwybodaeth am ofalwr unigolyn, neu adroddiad person coll. Pob gwybodaeth sy’n helpu’r Heddlu i benderfynu ar y ffordd orau i ofalu am unigolyn.
- Awgrymodd Lee Jones y gallai grŵp gweithredol gydag aelodau o’r cyhoedd fod yn fanteisiol i ofyn am adborth cyn cynnal y peilot. Ychwanegodd y byddai’n dda cynnwys mecanweithiau atebolrwydd a chraffu i’r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) er mwyn rhoi tawelwch meddwl, ac i adeiladu unrhyw ddysgu perthnasol o adolygiad barnwrol yr LFR i mewn iddo.
  - Ychwanegodd yr Uwch-arolygydd Townsend y byddai’n ddefnyddiol ffurfio grŵp gweithredol o ffrindiau beirniadol ochr yn ochr â’r peilot, yn hytrach na chyn hynny, er mwyn gallu ymateb i unrhyw gwestiynau wrth i’r peilot fynd rhagddo. Cytunodd Lee Jones a chynnig cefnogaeth aelodau’r Grŵp Atebolrwydd a Chyfreithlondeb
- Ydy’r peilot yn dechnoleg hollol newydd i’r Heddlu ac oes unrhyw heddlu arall wedi peilota rhywbeth tebyg?
  - Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod yr arbrawf yn hollol newydd i Heddlu De Cymru ac nad oes unrhyw heddlu arall wedi gweithredu unrhyw beth tebyg.
- Ydy’r gronfa ddata am y ddalfa a ddefnyddir o fewn yr Ap yn cynnwys unrhyw un a ddygwyd i’r ddalfa p’un ai os ydynt yn cael eu cyhuddo neu beidio?
  - Dywedodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod y gronfa ddata am y ddalfa yn gronfa ddata ar y cyd a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent. Mae’r gronfa ddata’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un sydd â’u delwedd wedi’i chasglu gan yr Heddlu dan hawliau PACE. Dan egwyddorion yr heddlu, mae gan yr Heddlu yr hawl i gadw eu delwedd a’i chymharu.

Trafodaeth foesegol

- Ydy’r defnydd o’r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn gwneud wynebau unigolion yn gerdyn adnabod?
  - Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod y delweddau adnabod eisoes yn cael eu defnyddio’n helaeth gan yr heddlu ac y byddai’r Ap ond yn cyflymu’r prosesau a’u gwneud yn llai ymwthiol.
- Oedd pwrpas arall i ddefnyddio’r mecanwaith Ap Adnabod Wynebau (FRApp) ar wahân i adnabod rhywun sy’n fregus neu dan amheuaeth o drosedd?
  - Cyfeiriodd yr Uwch-arolygydd Townsend at y defnydd o’r Ap yn achos unigolion na allant roi eu manylion personol, er enghraifft, rhywun sydd wedi marw. Cytunodd Harriet Pierpoint a’r Uwch-arolygydd Townsend y byddai unrhyw ddefnydd pellach o’r Ap y tu hwnt i baramedrau sefydledig yn broblematig.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

- Oes unrhyw siawns y gallai'r Ap amlhau nifer y gwiriadau hunaniaeth yr ymgymerir â nhw?
    - Dywedodd yr Uwch-arolygydd Townsend nad oes modd gwybod hyn nes cwblhau'r peilot. Tybiai'r Uwch-arolygydd Townsend y gallai'r nifer o wiriadau hunaniaeth gynyddu ond y byddai cyfiawnhad dros y rhesymau hynny ac y dylai unrhyw ganlyniad ymwthiol gael ei liniaru.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r defnydd o'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn sgil y senario canlynol: Rwy'n berson dieuog, mae'r heddlu wedi fy adnabod ar gam, ac maen nhw'n credu 'mod i wedi cyflawni trosedd. Maen nhw eisiau defnyddio'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) i fy adnabod i. Beth fyddai'n digwydd petawn i'n gwrthod cydweithredu? Os ydw i'n dewis cydweithredu, a fydd delwedd ohona i'n cael ei thynnu yn y stryd o flaen hwn a'r llall? Gallai hyn gael effaith negyddol ar fy mherthynas gyda'r heddlu os ydw i'n ddinesydd sy'n parchu'r gyfraith. Oes unrhyw ffyrdd ar gael i sicrhau eglurhad ysgrifenedig i unigolion o'r rhesymau dros eu stopio, gan y gallai'r fath ddigwyddiad fod yn brofiad dryslyd sy'n cyfyngu ar allu unigolyn i ddeall a chofio gwybodaeth a roddwyd ar lafar ar y pryd.
    - Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend fod digon o rymoedd ar gael eisoes, o roi seiliau derbyniol, i alluogi'r heddlu i fynd ag unigolyn i'r ddalfa os yw'r unigolyn hwnnw'n gwrthod darparu manylion personol (p'un a ydynt wedi eu hadnabod yn gywir ai peidio).
    - O safbwynt yr ail gwestiwn, dywedodd yr Uwch-arolygydd Townsend mai cyfrifoldeb y swyddog yw trin pobl yn deg ac yn gymesur. Mae hyn eisoes yn rhan o'r hyfforddiant a fydd yn cael ei roi i swyddogion a fydd yn defnyddio'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp).
    - Bydd yr Uwch-arolygydd Townsend yn mynd â'r cwestiynau canlynol i'r grŵp gweithredol i'w trafod: sut mae'r Heddlu'n sicrhau fod pobl yn derbyn gwybodaeth am yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp)?
- Codod y Cadeirydd ddau bryder pellach: yn gyntaf, a fyddai'r cyhoedd yn ymddiried yn y defnydd o'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) o fewn y cyfyngiadau a nodwyd, ac yn ail, a fyddai'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn arwain at lwybr llithrig lle byddai cyflwyno'r dechnoleg yn arwain at gynnydd yn y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau.
    - Pwysleisiodd yr Uwch-arolygydd Townsend y byddai'r Heddlu eisiau sicrhau ei fod yn dryloyw o safbwynt y defnydd o'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) gan ychwanegu mai diben yr Ap yw hybu effeithlonrwydd prosesau sydd eisoes yn cael eu gweithredu'n unig h.y. nid yw'n newid grymoedd yr heddlu. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall nad yw'r broses o adnabod rhywun yn un newydd.
- Nododd y Pwyllgor fanteision yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp) wrth leihau amser a'r galw am yr heddlu.
- Codwyd pryderon am yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp) fel estyniad ymarferol o rymoedd yr heddlu a'r potensial o ddefnyddio'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn anghymesur ymysg grwpiau a chymunedau penodol.
    - Eglurodd yr Uwch-arolygydd Townsend y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ystod y profion archwilio.

<u>Crynodeb y Cadeirydd</u>

Amlinellodd y Cadeirydd agenda'r cyfarfod. Cyflwynwyd yr achos dros y defnydd o'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn glir. byddai'r defnydd o'r ap yn osgoi'r angen am ddulliau traddodiadol (a chymharol araf) o adnabod y rhai dan amheuaeth ac unigolion bregus gan osgoi ymwthiad cyfochrog sy'n gysylltiedig â systemau adnabod wynebau byw. O ganlyniad, mae'r ap yn cynnig modd o gyflymu gwiriadau hunaniaeth a fyddai'n digwydd beth bynnag. Drwy estyniad, mae'r ap yn cynnig modd o ryddhau amser yr heddlu. Codwyd pum prif bryder moesegol yn ymwneud â chyfiawnhad yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp).

- **Deall y defnydd o Bwerau'r Heddlu:** A oes modd ystyried y dechnoleg hon yn rhesymol fel estyniad o rymoedd yr heddlu? Hyd yn oed os nad yw'r Ap Adnabod Wynebau (FRApp) yn estyniad *ffurfiol* o rymoedd yr heddlu, a yw'n cynrychioli estyniad *effeithiol*, oherwydd bod yr ap yn cynnig modd i'r heddlu wireddu eu grymoedd presennol yn llawnach nag o'r blaen?
- **Cynnydd Posibl mewn Gwiriadau Hunaniaeth:** A fydd hwylustod defnyddio'r ap i gyflawni gwiriadau hunaniaeth (yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol) yn arwain at gyflawni mwy o wiriadau hunaniaeth? Mae'n bosib y bydd swyddogion yn fwy parod i ymgymryd â gwiriadau hunaniaeth os gall y fath wiriadau gael eu cwblhau ar unwaith, drwy gyfrwng yr ap.
  Fel rhan o'r peilot, dylid ystyried a yw'r defnydd o'r ap yn cynyddu'r nifer o wiriadau hunaniaeth yr ymgymerir â nhw. Os digwydd hynny, mae cwestiwn moesegol arall yn codi wedyn yn ymwneud â derbynioldeb y cynnydd cysylltiedig mewn gwiriadau hunaniaeth. A fyddai amlhau gwiriadau hunaniaeth o reidrwydd yn ganlyniad i'w groesawu?
- **Cyfathrebu Defnydd Deuol yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp):** Mae'n bwysig bod y defnydd deuol o'r dechnoleg, er mwyn helpu i adnabod troseddwyr dan amheuaeth ac i helpu pobl fregus, yn cael ei egluro wrth y cyhoedd. Serch hynny, ni ddylid rhoi pwyslais gormodol ar fanteision posibl defnyddio'r system yn achos pobl fregus, nes bod y pryderon moesegol yn ymwneud â'i ddefnydd yn achos pobl nad ydynt yn fregus yn cael eu cuddio neu eu dad-bwysleisio.
- **Y Perygl o Gamddefnydd:** A fydd yr ap yn cael ei ddefnyddio o fewn y cyfynigadau a ddisgrifiwyd? Hyd yn oed o gymryd na fydd yr ap yn codi pryderon moesegol difrifol o'i ddefnyddio fel y disgrifiwyd, gall pryderon godi yng nghyswllt y posibilrwydd o'i gamddefnyddio. Er gwaethaf sicrwydd yn ymwneud â chyfyngiadau yn y defnydd a ganiateir a'r driniaeth o'r data a gesglir, mae'n bosib y bydd y cyhoedd yn cwestiynu a fydd y cyfyngiadau ar y system a ddisgrifiwyd yn cael eu parchu. Dylai'r peilot osod pwyslais arbennig ar hysbysu'r cyhoedd o'r mesurau sydd wedi'u mabwysiadu i sicrhau na fydd y system yn cael ei chamddefnyddio, sut bydd modd darganfod unrhyw gamddefnydd, a pha gamau fydd yn cael eu dilyn yn sgil y fath gamddefnydd.
- **Cynsail ar gyfer Goruchwyliaeth Fwy Mewnwthiol:** Yn ychwanegol at, ond yn annibynnol ar, pryderon am y defnydd o'r ap o fewn cyfyngiadau cyfreithiol a'r mecanweithiau atebolrwydd a ddisgrifiwyd, mae pryder 'llwybr llithrig': ai'r cam cyntaf

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

tuag at ddefnydd cynyddol fewnwthiol o dechnoleg adnabod wynebau yw'r dechnoleg yma? Dylid ystyried a yw hyn yn gosod cynsail peryglus a allai gael ei ddefnyddio i gyfiawnhau cyrchoedd pellach i breifatrwydd y cyhoedd mewn mannau cyhoeddus, ac, os na, pa sicrwydd y gellir ei roi i'r cyhoedd nad oes y fath gynsail wedi'i osod gan yr achos hwn.

Yn ogystal â'r pryderon moesegol uchod, awgrymwyd y canlynol yng nghyswllt y wybodaeth a roddwyd i aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi cael gwiriad hunaniaeth dan yr Ap Adnabod Wynebau (FRApp):

- **Taflen Wybodaeth Bapur:** Dylid ystyried darparu canllaw gwybodaeth papur i'r rhai sydd wedi cael gwiriad hunaniaeth Ap Adnabod Wyneb (FRApp). Mae'n bosib na fydd dibyniaeth lwyr ar gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at wybodaeth ar wefannau perthnasol yn ddymunol (am nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd a gall fod y rhai sydd â mynediad yn wynebu anawsterau wrth ganfod y safle perthnasol) - hefyd mae'n bosib na fydd pobl sy'n wynebu'r fath ymyrraeth yn cofio'r wybodaeth a roddwyd iddynt ar lafar ar adeg y gwiriad hunaniaeth.

4.2 Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfathrebu â'r Cyhoedd: Cyflwyniad i'r cyfyng-gyngor gan yr Uwch-arolygydd Emma Tyler a Catherine Llewellyn:

Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Emma Tyler y cefndir yn ymwneud â'r galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus (PSC). Ar lefel genedlaethol, cafwyd nifer digynsail o alwadau 999 a 101 yng Nghymru a Lloegr. Mae Heddlu De Cymru wedi dilyn o safbwynt y fath alw, ac mae wedi wynebu cynnydd sylweddol gan gyrraedd lefelau uwch nag erioed eleni, gyda ffigyrau hyd yn oed yn uwch na Nos Galan. O ganlyniad, ar y 4ydd Awst 2021, cyhoeddodd yr heddlu argyfwng. Gwnaed cymariaethau â heddluoedd eraill. Yn ystod cyfnod prysuraf yr argyfwng, roedd amser aros cyfartalog Heddlu De Cymru ar gyfer galwadau 999 ychydig dan 40 eiliad - fel arfer mae hyn dan 10 eiliad. Roedd cyfnod aros o 10 munud i alwadau 101 yr Heddlu. O'r 30 o heddluoedd a adolygwyd, Heddlu De Cymru oedd y trydydd o'r gwaelod. Mae'r heddlu wedi cyflwyno dulliau eraill o gysylltu yn ystod y cyfnod hwn e.e. cyswllt digidol drwy'r llwyfan cenedlaethol, Single Online Home. Mae'r Heddlu hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol megis negeseuon uniongyrchol (DMs) ar Twitter a Facebook.

Mae'r cyfyng-gyngor wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor i drafod strategaeth gyfathrebu bosibl. Nid yw Heddlu De Cymru'n dymuno rhwystro'r cyhoedd rhag cysylltu â nhw mewn achosion lle gall yr Heddlu fod o gymorth. Serch hynny, mae lefel y galwadau coll yn uchel ar hyn o bryd. Mae Heddlu De Cymru'n derbyn nifer o alwadau lle nad yw'r un sy'n galw'n gwybod pa wasanaeth, os o gwbl, i'w ffonio. Mae nifer o luoedd eraill yn llunio strategaethau cyfathrebu i gyfeirio pobl i'r man iawn. Anogwyd pobl i gysylltu â'r Heddlu drwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhyddhau'r llinellau ffôn i'r rhai sy'n methu â chysylltu â'r Heddlu drwy sianeli ar-lein.

Ymatebion/cwestiynau a godwyd:

- Ydy'r heddlu'n gwybod beth sy'n gyfrifol am y fath alw uchel?
  - Nododd yr Uwch-arolygydd Tyler fod dadansoddiad o'r data wedi'i gyflawni ac nad oedd unrhyw reswm uniongyrchol dros y cynnydd yn y galw. Trafodwyd y mater hwn yn y Fforwm Cyfathrebu Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ni allai unrhyw un gynnig rheswm am y fath gynnydd. Yr un yw'r sefyllfa yn achos sawl heddlu.
- Oes unrhyw waith maes wedi'i gyflawni yn gofyn i bobl pam eu bod yn ffonio'r heddlu nawr pan nad ydynt wedi gwneud hynny yn y gorffennol?
  - Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Tyler fod arolygon wedi'u cwblhau'n gofyn i bobl pam eu bod nhw'n ffonio, ond ymddengys fod y galwadau'n rhai dilys, ac mae pobl yn dewis adrodd mwy. Mae'n bosib bod COVID19 wedi chwarae rôl yn y cynnydd yn y lefelau adrodd ac mae nifer o'r materion sy'n cael eu hadrodd yn ddilys. Mynegodd yr Uwch-arolygydd Tyler bryder am ofyn i bobl pam eu bod yn ffonio ac yn adrodd am ddigwyddiadau pan mai dyna beth mae'r Heddlu'n dymuno iddynt wneud.
  - Cytunodd yr Uwch-arolygydd Tyler, Harriet Pierpoint a'r Cadeirydd fod angen newid yn y modd o gyfathrebu i gael strategaeth sydd wedi'i hanelu at addysgu'r cyhoedd i gyfeirio eu pryderon at yr asiantaeth briodol yn well.
- Beth yw'r gorwel amser ar gyfer y strategaeth gyfathrebu hon? Pryd rydych chi'n rhagweld y bydd yn gorffen, a yw'n newid parhaol neu ai dim ond yn ystod y cyfnod argyfwng y mae ei angen?

Awgrymodd yr Uwch-arolygydd Tyler y dylai'r strategaeth fod yn un barhaus a darparodd Catherine Llewellyn wybodaeth am y strategaeth gyfathrebu. Datblygwyd strategaeth gyfathrebu yn sgil yr argyfwng. Bwriad y Tîm Cyfathrebu oedd cyflwyno cynnwys deniadol ar sail negeseuon ffeithiol. Dywed ymchwil grŵp ffocws fod angen dal sylw rhywun o fewn y 5 eiliad gyntaf ar y cyfryngau cymdeithasol neu byddant yn symud ymlaen. Mae'r Heddlu wedi dilyn y trywydd hwn drwy gyfrwng sawl dull gwahanol. Anfonwyd enghreifftiau o'r negeseuon i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod. Un farn fewnol oedd efallai nad oedd rhywfaint o'r cynnwys a gyflwynwyd yn dangos y broblem. Er enghraifft, mae un o'r darnau o gynnwys a gyflwynwyd yn rhoi esiamplau o alwadau pranc. A ddylai'r heddlu fod yn cyflwyno cynnwys am y camddefnydd o 999 neu a ddylai'r Heddlu fod yn ceisio dargyfeirio'r cyswllt i'r asiantaethau cywir. Ydy'r neges yn dangos y broblem, ac os nad ydyw, ydy hynny'n dderbyniol o hyd? Mae'r Heddlu'n ceisio denu sylw pobl ac yna cyflwyno'r neges ddifrifol sy'n sail iddo. Mae cred fod y strategaeth gyfathrebu draddodiadol wedi bod yn rhy gul o ystyried

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

cymhlethdod y mater dan sylw. Dyma pam mae'r Grŵp Aur wedi gofyn ar i'r mater gael ei ddwyn o flaen y Pwyllgor Moeseg i'w drafod.

Ymatebion/cwestiynau a godwyd:

- A allai fod yna ymgyrch cam-wrth-gam yn debyg i'r ymgyrch a gafwyd gan y GIG a'r Gwasanaeth Ambiwlans sy'n cynnig arweiniad ar y camau y gellid eu cymryd cyn ffonio 999 neu fynd i'r Adran Ddamweiniau?
  - Mae'r Heddlu wedi bod yn edrych ar ffyrdd y mae heddluoedd a gwasanaethau eraill yn eu defnyddio wrth gyfathrebu. Nid yw'r Pwyllgor wedi derbyn bob cyfathrebiad, ond mae'r Heddlu'n ceisio gwneud yn union yr hyn a ddisgrifiwyd. Mae gan yr Heddlu ddeunydd ymgyrch trawiadol gyda negeseuon ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw.
  - Pwysleisiodd y Cadeirydd ddau fater sylfaenol: yn gyntaf, oes cyfiawnhad moesegol dros ddweud wrth bobl â phwy i gysylltu a ble i gyfeirio'u pryderon Yn ail, beth yw'r safiad moesegol o safbwynt y dôn sy'n cael ei mabwysiadu yn y fath negeseuon? Nododd nad yw'r mater cyntaf yn ymwneud â'r hyn y ceisiodd yr Heddlu arweiniad amdano, a bod sylw'r Pwyllgor wedi'i gyfeirio at yr astudiaeth achos ar gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Ceisiwyd ystadegau'n ymwneud â'r nifer o bobl sydd bellach yn defnyddio llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â'r heddlu ers lansio'r ymgyrch.
  - Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd Tyler ystadegau a chadarnhaodd Catherine Llewellyn, ers lansio'r ymgyrch, fod y nifer o gysylltiadau â'r heddlu drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol wedi dyblu.
- Nododd Nia Brennan fod y buddion arfaethedig o greu deunydd wedi'i anelu at y genhedlaeth iau sy'n denu sylw drwy hiwmor a choegni. Serch hynny, cydnabu efallai na fyddai ein cymunedau niwroamrywiol yn deall yr hiwmor na'r negeseuon y tu ôl i ddelweddau a thrydariadau penodol. Ni fyddai'r Heddlu'n dymuno cyhoeddi rhywbeth a allai effeithio ar gyswllt cymunedau mwy bregus â'r heddlu. A gafwyd asesiad effaith cydraddoldeb? Neu a roddwyd ystyriaeth i'r effaith ar y niwroamrywiol?
  - Dywedodd yr Uwch-arolygydd Tyler am fod yr ymgyrch yn edrych fel newid hir dymor yn y dull o gyfathrebu, mae'n bwysig iawn trafod y mater hwn. Bydd yr Uwch-arolygydd Tyler yn ystyried hyn ymhellach gyda'r grŵp AUR.

Trafododd y Pwyllgor drydariad coeglyd.

- Cyflwynodd y Cadeirydd gwestiwn ar sail pwynt Nia a'r trydariad dan sylw. Ydy'r strategaeth hon yn gwneud rhagdybiaethau penodol am y modd mae pobl yn derbyn coegni a'u perthynas â'r heddlu?
- Nododd Catherine Llewellyn na fyddai'r trydariad o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio drwy gyfrwng sianeli eraill gan ddweud fod yr Heddlu'n deall y gynulleidfa sydd ganddynt ar y cyfryngau cymdeithasol. Hyd yn hyn ni chafwyd unrhyw gwynion am y trydariad penodol hwnnw.
- Cydnabu'r PGC Travis fod y defnydd o hiwmor a ddefnyddiwyd yn y trydariadau yma'n addas ar gyfer y gynulleidfa. Nododd i'r trydariad gael ei aildrydaru droeon. Dywedodd PGC Travis hefyd na chafwyd unrhyw sylwadau negyddol.
- Trafododd Martyn Jones y wyddoniaeth y tu ôl i'r theorïau ymgysylltiad gan bwysleisio manteision defnyddio iaith fodern i gyfathrebu â'r gynulleidfa iau er mwyn iddynt ddeall bod yr heddlu yno i'w hamddiffyn.
- Mynegodd Jayne Woodward ei phryderon hi ynglŷn â'r Heddlu'n gwneud camgymeriadau wrth ddefnyddio iaith amhroffesiynol wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Pwysleisiodd y gallai'r defnydd o iaith amhroffesiynol amharu ar hyder yr unigolyn yn yr heddlu fel sefydliad difrifol a phroffesiynol.
- Pwysleisiodd yr Uwch-arolygydd Tyler bwysigrwydd cael cydbwysedd o safbwynt cyfathrebiadau, gan awgrymu fod angen cael negeseuon yn targedu pobl ifanc a negeseuon yn targedu'r genhedlaeth hŷn.
- Holodd y Cadeirydd as oes angen defnyddio dulliau coeglyd o gofio nad oedd y deunyddiau eraill a ddarparwyd wedi achosi problem ac yn ymddangos fel pe baent yn gweithio.
- Pwysleisiodd PGC Travis fanteision y dull hwn, gan awgrymu fod cadw gwybodaeth yn bersonol a defnyddio hiwmor wedi dangos cynnydd yn yr ymgysylltiad ar-lein. Nododd PGC Travis hefyd fod goddefiadau cymdeithasol wedi newid dros amser a bellach mae angen ailasesu ble mae tynnu'r llinell. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod angen i'r heddlu esblygu.
- Pa werthoedd ddylai'r strategaeth gyfathrebu eu harddangos?
  - Eglurodd yr Uwch-arolygydd Tyler y dylai'r strategaeth gyfathrebu ymgorffori gwerthoedd y sefydliad.
- Awgrymodd Jacqueline Gantley y gall defnyddio iaith sy'n canmol pobl am eu gwaith da fod yn fanteisiol.
  - Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Tyler fod gwaith wedi digwydd eisoes o safbwynt rhoi atgyfnerthiad cadarnhaol ar waith.

Crynodeb y Cadeirydd

Amlinellodd y Cadeirydd agenda'r cyfarfod. Pwysleisiodd y drafodaeth am y cyfyng-gyngor yn sgil y trydariad y cwestiynau cyffredinol a phenodol foesegol am gyfathrebiadau'r heddlu ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar lwyfannau megis Facebook a Twitter, mae'r cyfathrebu'n digwydd yn fwy anffurfiol, chwareus a llai parchus. Sut y gall yr heddlu gynnal safonau proffesiynoldeb yn eu cyfathrebiadau â'r cyhoedd o fewn cyfyngiadau'r llwyfannau yma a disgwyliadau eu defnyddwyr? Yn yr un modd, sut y gall Heddlu De Cymru gynnal safonau proffesiynoldeb yn eu cyfathrebiadau â'r cyhoedd wrth gystadlu am sylw'r cyhoedd yng nghyd-destun ennyn sylw drwy hiwmor a 'gwerth sioc' neges?

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

Y pos penodol y mae'r trydariad yn enghraifft ohono oedd trydariad doniol, coeglyd a oedd yn awgrymu gwatwar aelodau o'r cyhoedd sydd wedi ffonio'r heddlu mewn modd didwyll, ond bod eu galwadau wedi'u camgyfeirio, yn gyson gyda safonau cyfathrebu proffesiynol addas ar gyfer yr heddlu? Roedd y trydariad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w ystyried wedi'i gynllunio i gyfathrebu â'r gynulleidfa a'i haddysgu sy'n croesawu negeseuon mwy anffurfiol, a llai neilltuedig na chyfathrebiadau mwy arferol a thraddodiadol yr heddlu. Awgrymwyd y trydariad hwn fel enghraifft o arddull trydariad (a chyfathrebiad cyfryngau cymdeithasol yn fwy cyffredinol) sy'n cael ei ystyried fel rhan o strategaeth cyfryngau Heddlu De Cymru. Ymysg elfennau eraill y strategaeth hon mae ffeithluniau er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall a yw eu mater nhw'n disgyn o fewn cylch gwaith yr heddlu neu wasanaeth brys arall.

Deilliodd y strategaeth gyfryngau hon o gyd-destun y Gwasanaethau Cyhoeddus yn datgan argyfwng. Dangosodd y digwyddiad hwnnw fod angen lleihau nifer y galwadau ffôn oedd yn cael eu cyfeirio at y Ganolfan ar fyrder, gan fod eu staff dan bwysau, yn rhannol yn sgil galwadau oedd yn cael eu camgyfeirio a ddylai fod wedi dod i sylw cyrff cyhoeddus eraill neu ddim o gwbl. Nod drosfwaol y strategaeth cyfryngau cymdeithasol oedd addysgu'r cyhoedd mewn modd clir a diamwys am ba faterion sy'n cael eu cyfeirio'n briodol at yr heddlu a pha rai sydd ddim. Mabwysiadwyd y fath nod yn llwyddiannus gan strategaeth gyfathrebu'r Gwasanaeth Ambiwlans yn y gorffennol.

Gall y cyfiawnhad moesegol dros negeseuon cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu cynllunio i ddenu cynulleidfa drwy ddefnyddio coegni neu hiwmor fod yn ddibynnol ar p'un a yw'r fath negeseuon yn cael eu creu fel rhan o strategaeth cyfryngau cymdeithasol i reoli argyfwng a fyddai ond yn cael ei gweithredu gyhyd â bod yr argyfwng yn parhau, neu fel rhan o strategaeth cyfryngau cymdeithasol mwy cyffredinol gyda'r bwriad o barhau dros dymor hir. Er y gallai ymateb i argyfwng roi mwy o gyfle i ddefnyddio arddull llai ffurfiol, gallai mabwysiadu'r fath arddull fel rhan o symudiad tymor hir yn y strategaeth gyfathrebu fod yn fwy heriol.

Mynegwyd dwy brif feirniadaeth foesegol yn ystod y drafodaeth:

1. Nid oedd y trydariad sampl yn cydymffurfio â'r safonau disgwyliedig o ran proffesiynoldeb; ac
2. Roedd y trydariad sampl yn dibynnu ar ragdybiaethau problemus.

O safbwynt proffesiynoldeb, roedd dau bryder gwahanol:

1. Ydy'r fath drydariad yn gyson ag arddull gyfathrebu broffesiynol?
2. Ydy'r fath drydariad yn gyson ag arddull fewnol Heddlu De Cymru?

Ydy'r negeseuon sampl yn cyflawni'r safonau proffesiynol disgwyliedig o gyfathrebiadau'r heddlu â'r cyhoedd? Yn ôl safonau traddodiadol proffesiynoldeb, dylai cyfathrebiadau'r heddlu â'r cyhoedd fod yn syml, ffurfiol a difrifol. Beth yw gwerthoedd sylfaenol strategaeth gyfathrebu Heddlu De Cymru (sy'n wahanol i werthoedd cyffredinol yr Heddlu)? Byddai egluro'r gwerthoedd yma'n ddefnyddiol iawn er mwyn helpu'r tîm cyfathrebu i wneud penderfyniadau. Os yw'r gwerthoedd hynny'n ymwneud â 'didwylledd' a 'phroffesiynoldeb', er enghraifft, efallai y byddai'n fwy anodd cyfiawnhau negeseuon ysgafnach neu lai parchus ar y cyfryngau cymdeithasol.

Serch hynny, mae'n bosib fod yr arferol o safbwynt proffesiynoldeb yn esblygu yn sgil newidiadau yn nisgwyliadau'r cyhoedd. Mae'n rhaid i Heddlu De Cymru sicrhau, yn gyntaf ac yn bennaf, fod eu cyfathrebiadau'n cyrraedd y gynulleidfa/cynulleidfaoedd y bwriadwyd nhw ar eu cyfer a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r bobl hynny mewn modd derbyniol. Wrth geisio cyrraedd set amrywiol o gynulleidfaoedd, mae'n bosib bod angen arddulliau cyfathrebu gwahanol ar broffesiynoldeb wedi'u teilwra ar gyfer arddulliau cyfathrebu'r cynulleidfaoedd arfaethedig gwahanol. Felly, mae'r cyfyng-gynor hwn yn codi cwestiwn (sylfaenol) pellach: 'Beth yw proffesiynoldeb ym maes cyfathrebiadau'r heddlu yn y 21ain ganrif?'.

Dylid ystyried y strategaeth gyfathrebu ar-lein hefyd o fewn cyd-destun strategaeth gyfathrebu ehangach Heddlu De Cymru. Ydy arddull y trydariad dan sylw'n gyson â brand corfforaethol yr Heddlu? Ymddengys bod *Prima facie*, y strategaeth cyfryngau cymdeithasol arfaethedig yn rhywbeth allanol o fewn y strategaeth gyfathrebu ehangach. Serch hynny, ydy'r diffyg parhad yn broblematig o reidrwydd? Efallai nad yw'n realistig disgwyl i arddull cyfathrebiadau'r cyfryngau cymdeithasol gydymffurfio ag arddull gyfathrebu ehangach Heddlu De Cymru. Efallai y dylai cyfathrebiadau ar y cyfryngau cymdeithasol gael eu trin fel *sui generis*. A ddylai'r cyhoedd ddisgwyl unffurfiaeth o safbwynt cyd-destunau cyfathrebu amrywiol?

Ymddengys fod tair rhagdybiaeth sylfaenol (problemus o bosib) yn sail i'r strategaeth gyfryngau cymdeithasol

1. Y bydd cynulleidfa'r cyfryngau cymdeithasol yn deall y coegni a ffurfiau cynnil eraill o hiwmor.
2. Bod gan Heddlu De Cymru berthynas gadarnhaol gyda'r gynulleidfa arfaethedig er mwyn i'r hiwmor a'r coegni fod yn ddull cyfathrebu addas o safbwynt y berthynas honno.
3. Mae'r feirniadaeth sydd ymhlyg yn ddull dysgu effeithiol o safbwynt dylanwadu ar ymddygiad cyhoeddus.

Caiff pob rhagdybiaeth ei hystyried nawr yn eu tro:

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w drafod - Technoleg Adnabod Wynebau a'r Galw am Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

- **Niwroamrywiaeth:** Rhagdybia'r trydariad y bydd y gynulleidfa'n sylwi ar y coegni ac yn sylweddoli fod y trydariad yn un doniol. Ydy coegni'n ddull derbyniol o gyfathrebu â'r cyhoedd, o ystyried pwysigrwydd fframio cyfathrebiadau mewn modd sy'n hawdd ei ddeall o safbwynt grwpiau niwroamrywiol? Dylid ystyried a yw dulliau cynnil o hiwmor yn addas wrth gyfathrebu â chynulleidfa gyffredinol amhenodol a fydd yn cynnwys niwroamrywiaeth helaeth.
- **Perthynas â'r cyhoedd:** Rhagdybia'r trydariad y bydd y gynulleidfa'n derbyn hiwmor a choegni gan yr heddlu. Rhagdybia'r berthynas rhwng Heddlu De Cymru â defnyddwyr negeseuon cyfryngau cymdeithasol Heddlu De Cymru. Er yn anffurfiol, gall cyfathrebiadau doniol fod yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd pan fydd y berthynas yn un gadarnhaol, ond gall tôn mwy ffurfiol fod yn fwy addas wrth gyfathrebu â chynulleidfaoedd sy'n llai parod i ymddiried.
- **Effeithiolrwydd Beirniadaeth fel Dull Addysgiadol:** Yn olaf, ystyria'r trydariad y gall beirniadaeth fod yn ddull addysgiadol adeiladol. Roedd pryder a fynegwyd yn benodol am y feirniadaeth ymhlyg yn y trydariad yn ymwneud ag effeithiolrwydd pedagogaidd beirniadaeth. Awgryma ymchwil fod pobl yn ymateb yn well i glod yn hytrach na cherydd. Ymddengys bod y strategaeth hon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â cheryddu pobl sydd wedi camgyfeirio galwadau at yr heddlu. Dylid ystyried fframio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u hanelu at wthio ymddygiad y cyhoedd mewn modd cadarnhaol, calonogol, o bosib drwy ddathlu enghreifftiau o arfer da yn hytrach na beirniadu arfer gwael.

6. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd Rhanbarthol ers y Pwyllgor Moeseg Annibynnol ar y Cyd olaf. Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 21 Hydref '21.

9. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2021

Dydd Gwener 17eg Rhagfyr 09:00 – 12:00 – Microsoft Teams.

CAMAU GWEITHREDU NEWYDD			
16.09.2021.2	John William Devine a Lee Jones i fwrw ymlaen â'r gwaith o recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.	John William Devine a Lee Jones	